# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017

Amser: 08.30 - 09.09

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 15 Chwefror 2017 –**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y Darlun Mawr, Safbwyntiau cychwynnol ar ddarlledu yng Nghymru (30 munud)

**Dydd Mercher 1 Mawrth 2017 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

### 3.4 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – Dewis Cynnig

Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer y ddadl:

**Dydd Mercher 8 Chwefror**

- **NNDM6222 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil yn ymwneud â sgiliau achub bywyd.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) creu hawl statudol i bobl gael addysg a hyfforddiant sgiliau achub bywyd sy'n briodol i'w hoedran ar amrywiol adegau yn eu bywydau

b) llunio cyfrifoldebau statudol i sicrhau:

i) bod hyfforddiant sgiliau achub bywyd yn cael ei ddarparu;

ii) bod diffibrilwyr yn cael eu darparu mewn lleoliadau priodol;

iii) bod unigolion sydd wedi cael hyfforddiant achub bywyd ar gael mewn swyddi allweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus (yn hytrach na pherson cymorth cyntaf penodedig); a

iv) bod deunyddiau cymorth cyntaf sylfaenol ar gael i'r cyhoedd mewn adeiladau cyhoeddus, ac nid ar gyfer y staff yn unig.

c) creu ffyrdd o wella a gorfodi o ran yr uchod.

# 4 Y Pwyllgor Busnes

## 4.1 Grwpiau a Chynrychiolaeth ar Y Pwyllgor Busnes

Trafododd y Pwyllgor bapur ar grwpiau a chynrychiolaeth ar Y Pwyllgor Busnes. Roedd y papur yn nodi opsiynau posibl ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog er mwyn i Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp beidio â bod o dan anfantais am nad oes ganddynt gynrychiolaeth ar Y Pwyllgor Busnes.

Trafododd y Rheolwyr Busnes hefyd ymatebion gan Kirsty Williams, Nathan Gill a Dafydd Elis-Thomas i lythyr y Llywydd yn gofyn am eu barn ar y mater. Roedd y tri Aelod wedi nodi y byddent yn ffafrio cael eu cynrychioli drwy ddirprwy.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd.

## 5 Defnyddio amser yn y Cyfarfod Llawn

### 5.1 Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad

Trafododd y Rheolwyr Busnes opsiynau i gyflwyno gweithdrefn newydd ar gyfer Cwestiynau Amserol a Chwestiynau Brys.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth ddrafftio meini prawf posibl ar gyfer y weithdrefn newydd, ynghyd â gweithdrefn ddiwygiedig ar gyfer y Cwestiynau Brys. Nododd Arweinydd y Tŷ ei bod yn bwriadu dosbarthu nodyn a oedd yn amlinellu ei meini prawf arfaethedig ar gyfer pob gweithdrefn. Cytunwyd i ailystyried y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## Unrhyw fater arall

*Datganiadau 90 Eiliad*

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i annog Aelodau i gyflwyno mwy o amrywiaeth yng nghynnwys y Datganiadau 90 Eiliad. Nid oes unrhyw geisiadau wedi dod i law hyd yn hyn ar gyfer yr wythnos hon.

*Cwestiynau'r Llefarwyr*

- Bu i'r Llywydd atgoffa'r Rheolwyr Busnes y dylai'r llefarwyr nodi ar y ffurflenni siaradwyr a anfonnir i'r grwpiau os ydynt am holi Gweinidog yn hytrach nag Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod sesiwn Cwestiynau'r Llefarwyr, neu dylent hysbysu Ysgrifenyddiaeth y Siambr o'u bwriad cyn gynted â phosibl.

*Ysgrifenyddion y Cabinet yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer dadleuon*

- Bu i'r Llywydd atgoffa'r Llywodraeth mai mater o gwrteisi yw i Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion sy'n ymateb mewn dadleuon fod yn bresennol drwy gydol y ddadl.